

Cyflog:	£25,000 yn ogystal â phensiwn y cyflogwr a chostau teithio
Lleoliad:	Swyddfeydd PLANED (yn Arberth ar hyn o bryd) gyda theithio ar draws rhanbarth De-orllewin Cymru.
Oriau:	37.5 awr yr wythnos
Cyfnod:	Cyfnod Penodol (hyd at fis Mehefin 2023)
Trwydded Yrru	Hanfodol

Diben y Swydd:

Mae'r rhaglen Menter Dosbarthu Bwyd yng Nghymunedau Cymru yn rhan o Raglen Datblygu Gwledig (RDP) - Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru 2014 – 2020, a ariennir gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD). Datblygu a chefnogi rheolaeth prosiect hybiau bwyd newydd. Dod o hyd i, a datblygu cyfleoedd yn weithredol i ychwanegu gwerth a chydweithio gyda gweithgareddau eraill sy'n ymwneud â'r hybiau.

Atebolrwydd:

Yn atebol i Gydlynnydd Menter Dosbarthu Bwyd yng Nghymunedau Cymru

Cysylltiadau Allweddol:

Yn fewnol: Tîm Rheoli, Bwrdd PLANED, partneriaid y prosiect

Yn allanol: Cymdeithasau cymunedol a grwpiau cymunedol, ysgolion, cyngorau cymuned a thref, grwpiau a rhwydweithiau gwirfoddol a busnes lleol.

Cyfrifoldebau a dyletswyddau:

- Rhoi cymorth deinamig i gymunedau, sefydliadau busnes a'r sector cyhoeddus i ddatblygu hybiau yn unol ag amcanion strategaeth ddatblygu a chanllawiau ariannol Menter Dosbarthu Bwyd yng Nghymunedau Cymru
- Recriwtio a datblygu cysylltiadau cadarnhaol â chynhyrchwyr bwyd, cyflenwyr a chyfanwerthwyr o Gymru i ddod yn gyflenwyr hybiau
- Recriwtio a datblygu cysylltiadau cadarnhaol â grwpiau cymunedol
- Cynorthwyo grwpiau cymunedol a chyflenwyr i ddatrys unrhyw broblemau posibl sydd ynghlwm â rhedeg hybiau
- Cynorthwyo grwpiau i adnabod lleoliadau hygyrch a chyflenwyr cynnyrch, a hwyluso'r datblygiad hwn yn weithredol o ran sefydlu hybiau - bod wrth gefn ar gyfer grwpiau a chyflenwyr i sicrhau bod y datblygiad yn digwydd yn ddidrafferth
- Diweddarau a chynnal cronfa ddata o gyflenwyr a hybiau, gan gynnwys data hybiau a gwybodaeth ynghylch dangosyddion perfformiad allweddol
- Cofnodi a chasglu tystiolaeth o weithgarwch hybiau yn unol â chanllawiau a dangosyddion y prosiect
- Cynorthwyo gyda darparu'r prosiect - cefnogi'r prosiect i gadw ar ben ffordd gyda'i weithgarwch a'r dangosyddion perfformiad allweddol
- Nodi cysylltiadau ac ychwanegu gwerth ar draws yr hybiau a datblygu'r syniadau hyn yn rhagweithiol
- Sicrhau bod arferion gorau yn cael eu rhannu ar draws yr ardal drwy ddatblygu astudiaethau achos, digwyddiadau cyfnewid dysg, ymweliadau astudio
- Ysgrifennu adroddiadau cynnydd sy'n tynnu sylw at gyflawniadau allweddol y prosiect yn unol â dangosyddion perfformiad cyffredinol y rhaglen ar gyfer noddwyr a rhanddeiliaid y rhaglen
- Rhannu cyfathrebiadau'r prosiect â'r tîm i gyfrannu at ddyluniad a darpariaeth cynllun cyfathrebu'r rhaglen
- Mynychu cyfarfodydd y grŵp llywio i adrodd ar gynnydd prosiect
- Diweddarau cyfryngau cymdeithasol a llwyfannau ar-lein yn rheolaidd mewn perthynas â chynnydd y prosiect
- Cynnal perthynas broffesiynol a chadarnhaol gydag aelodau eraill o staff ac aelodau'r grŵp llywio
- Ymgymryd â phob gweithgarwch ychwanegol rhesymol arall fel y'u cytunwyd gyda'ch rheolwr llinell

Sgiliau a phrofiad i gynnwys:

- Agwedd broffesiynol, ragweithiol gyda sgiliau cyfathrebu a threfnu rhagorol
- Sgiliau a phrofiad o reoli prosiect
- Profiad o ddatblygu a chyflawni prosiectau cymunedol neu fenter
- Gwybodaeth ynghylch heriau a chyfleoedd yn Sir Benfro/Sir Gaerfyrddin/Ceredigion
- Cyfathrebwr cryf gyda sgiliau hwyluso grŵp
- Hunan-ddisgybledig, gydag agwedd gadarnhaol, hyblyg at weithio ar eich liwt eich hun ac yn gallu gweithio fel rhan o dîm

- Lefel uchel o sgiliau cyfrifiadurol
- Yn gallu gweithio'n dda dan bwysau a blaenoriaethu tasgau'n rhagweithiol
- Sgiliau gweinyddol rhagorol
- Trwydded yrru lawn ac yn gallu defnyddio car sy'n addas ar gyfer gwaith.



MANYLEB PERSON

Swyddog Prosiect

Amgylchedd Gwaith y Swydd:		
<ol style="list-style-type: none"> 1. Fel arfer, bydd deiliad y swydd yn gweithio yn y swyddfa ond disgwylir iddo dreulio amser yn gweithio yn y gymuned yn aml. 2. Mae'n bosib y bydd disgwyl i ddeiliad y swydd weithio rhai penwythnosau a gyda'r nos. 3. Bydd angen i ddeiliad y swydd feddu ar drwydded yrru ddilys a bod yn barod i ddefnyddio car ar gyfer gwaith. 		
	Hanfod I	Dym unol
<p>Profiad</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Profiad o ddatblygu a chyflawni prosiectau a/neu gynorthwyo prosiectau a ariennir 2. Profiad perthnasol o weithio mewn modd cydweithredol gydag ystod wahanol o randdeiliaid 3. Profiad o feithrin a chynnal perthnasoedd o fewn grwpiau a rhwydweithiau cymunedol <p>Gwybodaeth</p> <ol style="list-style-type: none"> 4. Gwybodaeth ynghylch Sir Benfro a phroblemau sy'n wynebu cymunedau gwledig 5. Gwybodaeth am fethodolegau datblygu cymunedol ar lawr gwlad a sut i gysylltu darpariaeth prosiect gyda Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol <p>Sgiliau</p> <ol style="list-style-type: none"> 6. Parodrwydd i ymgysylltu'n gadarnhaol a chymryd atebolrwydd o fewn y rôl 7. Sgiliau a phrofiad o reoli prosiect 8. Sgiliau mewn datblygu a chyflwyno prosiectau cymunedol neu fenter 9. Sgiliau cyfathrebu a threfnu rhagorol 10. Hwyluso cymunedau a/neu grwpiau 11. Hunan-ddisgybledig, gydag agwedd hyblyg at weithio ar eich liwt eich hun a gallu gweithio fel rhan o dîm 12. Yn gallu gweithio'n dda dan bwysau a blaenoriaethu tasgau'n rhagweithiol 13. Lefel uchel o sgiliau cyfrifiadurol 14. Sgiliau gweinyddol rhagorol gyda sylw i fanylder a chofnodi data 15. Gallu siarad Cymraeg 16. Ymrwymiad i werthoedd ac ethos PLANED 	<p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p>	<p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p>

Noder: Mae'r swydd ddisgrifiad hwn yn cael ei roi i ddarparu amlinelliad eang o weithgareddau'r swydd. Mae'n bosib y bydd PLANED yn gofyn i'r deiliad ymgymryd â dyletswyddau eraill sydd ddim o reidrwydd yn cael eu nodi yn y swydd ddisgrifiad, ond sy'n gymesur â graddfa'r swydd. Mae'n bosib y bydd y swydd ddisgrifiad yn cael ei addasu o bryd i'w gilydd o fewn y cwmpas a'r lefel cyfrifoldeb sy'n berthnasol i'r swydd.



DRAFT